# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 21 Rhagfyr 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, Gareth W Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, William N Owen, Gwenfair E Rhys-Davies, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Iwan Pughe Jones, S Gareth Owen, Aeron Pughe, a Geraint Wigley.

**17.65. Datganiadau o diddordeb.**
Eglurodd **Cyng Paul Hughes** mi fydd rhaid iddo ddatgan diddoredeb pan fydd eitem 17.49.2 cael ei ystyried o dan "Materion yn codi" ac eglurodd **Cyng Aled Griffiths** egluro mi fydd rhaid iddo yntau ddatgan diddordeb ynglyn a cais cynllunio P/2017/1380.

**17.66. Cofnodion cyfarfod 30 Tachwedd 2017.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.67. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y phrosiect pibellau dwr. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu at Steve Coventry, Cwmni Severn Trent, ynglyn a cyflwr y ffordd a'r "gullies" ar ol i'r contractwyr cwblhau'r gwaith yng Nghwmlline.
17.49.1. Problemau gyda llwybr yr Eglwys yn Darowen. Datganiwyd diddordeb gan **Cyng Paul Hughes** a gadawodd yr ystafell. Cadarnhaodd y Clerc ei fod dal dim ond wedi derbyn un cynnig am y gwaith sydd angen ar y llwybr. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd rhaid gwasgu ymlaen gyda'r gwaith. O fewn y cynnig i gwneud y gwaith yr oedd dau optiwn. Trwsio darn o'r llwybr am £1,350-00 neu £3,350-00 am thrwsio'r llwybr cyfan. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd derbyn yr optiwn i thrwsio'r llwybr cyfan. Dychwelodd **Cyng Paul Hughes** i'r ystafell.
17.50.2. Goleuadau traffig ar y bont dros y rheilffordd yng Nghomins Coch. Cadarnhawyd Cyng Aled Griffiths fod y gwaith i thrwsio bont y rheilffordd wedi gorffen a bod y goleuadau wedi mynd.
17.57.7. Phroblemau gyda sefyllfa audit y Cyngor. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd derbyn cynnig y Cyngor Sir i gwasanaethu dyletswydd "P.A.Y.E." y Cyngor Cymuned.
17.64.2. Problemau gyda diffyg halen ar y cefnffyrdd. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi gofyn i swyddogion y Cyngor Sir rhoi halen ar pob pentwr halen ar y cefnffyrdd sydd yn arwain i Ddarowen o pob cyfeiriad. Hefyd ar y troiad ar gwaelod Cwm Ffrydlan a'r troiad i'r Gribyn uwchben Cemaes. Ychwanegodd Cyng Huw Williams fod hefyd angen halen ar pob pentwr i fyny Cwm Ffrydlan hefyd. Ychwanegodd Cyng Gwen Lloyd for angen halen ar y ffordd gefn rhwng Giat y Ffridd a Phont Ifans.
17.64.5. Golau ddim yn gweithio yn Nghwmlline. Cadarnhaodd y Clerc ei fod erbyn hyn wedi derbyn manylion y golau sydd ddim yn gweithio gan Cyng Deryck Lewis a wedi dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir. Cadarnhaodd Cyng Aled Griffiths fod y golau dal ddim yn gweithio.

**17.68. Cynllunio.**
68.1. P/2017/1358. Cais i codi estyniad yn cynnwys ty gwydr yn Ty Isaf, Ceinws, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cais.
68.2. P/2017/1378 a P/2017/1415. Newidiadau i'r ty a'r modurdy ym Mhen-y-bont, Glantwymyn, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cais.
68.3. P/2017/1380. Cais lleoliad dros dro o "chalet" ger Cil-y-winllan, Talywern, Machynlleth. Datganiwyd diddordeb gan **Cyng Aled Griffiths** a gadawodd yr ystafell. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi'r cais. Dychwelodd **Cyng Aled Griffiths** i'r ystafell.

**17.69. Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
69.1. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa gyda newid y mandate gyda'r banc. Cytunwyd gohirio unrhyw taliadau nes bod y mandate newydd wedi cael ei dderbyn.

**17.70. Gosod y Praesept.**
70.1. Cyflwynodd y Clerc ei cynnig drafft tuag a gosod y praesept.
70.2 Gadawodd y Clerc yr ystafell tra bu'r Cynghorwyr yn trafod yr eitem yn ymwneud a cyflog y Clerc tuag at y blwyddyn ariannol 2018/19. Ar ol i'r Clerc dychwelyd i'r ystafell, eglurwyd fod y Cynghorwyr wedi penderfynu cadw'r swm priodol tug at cyflog y Clerc yn £3,000.
70.3. Cytunwyd codi'r swm tuag at gwaith yn y mynwentydd i £2,000.
70.4. Cytunwyd nad oedd angen swm tuag at taliadau i'r Cynghorwyr.
70.5. Cytunwyd ychwanegu swm o £850 tuag at costau audit.
70.6. Cytunwyd derbyn pob cynnig arall gan y Clerc a gosod praesept o £12,500 tuag ar 2018/19.

**17.71. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
71.1. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan fod y cais i newid telerau Maes Carafanau Brynuchel yng Nghwmlline wedi cael eu dderbyn ond gyda amodau newydd ynglyn a gorfodaeth.
71.2. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan fod y cais cynllunio ynglyn Ysgol Glantwymyn wedi cael ei dderbyn ond fod rhai amheuon yn parhau ynglyn y bwriad i cynnwys maes parcio.
71.3. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan hefyd fod ffenestr yn yr ysgol yn mynd i cael ei thrwsio ond fod yna pryderon ynglyn cost y gwaith.
71.4. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod Ysgol Glantwymyn wedi cynnal cyngerdd llwyddianus dros ben, ond fod problemau gyda nifer o ceir wedi parcio mewn llefydd anaddas.

**17.72. Gohebiaeth.**
72.1. Llythr Nadolig gan Cyng Mike Cuddy, Cadeirydd Un Llais Cymru.
72.2. E-bost gan Mr Neil Hemington, Llywodraeth Cymru, ynglyn Adolygiad o'r Gyfraith Cynllunio yng Nghymru.
72.3. E-bost gan Mrs Claire Lewis, Cyngor Sir Powys, ynglyn a chais i ddadgofrestri darn o tir comin CL076 ger Rhiwgriafol, Talywern. Cytunwyd cefnogi y cais.
72.4. E-bost gan Mr Peter Jones, Cyngor Sir Powys ynglyn Cynllun Llesiant Drafft Powys.
72.5. E-bost gan Ms Helen Finlayson, Llywodraeth Cymru, ynglyn Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwigio Etholiadol.
72.6. E-bost gan Mrs Tracy Gilmartin-Ward ynglyn a chyfle i'r Cadeirydd mynychu garddwesti ym Mhalas Buckingham, Llundain.
72.7. E-bost gan Mr Wyn Richards, Cyngor Sir Powys, ynglyn newidiadau i'r trwyddedi ardaloedd "Severn Trent Water" a "Dee Valley Water".
72.8. E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynglyn Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.
72.9. E-bost gan Ms Wendi Patience, Un Llais Cymru, gyda manylion cyrsiau hyfforddi.
72.10. E-bost gan Mr Russell George AC gyda newyddion Mis Rhagfyr 2017.

**17.73. Unrhyw fater arall.**
73.1. Cyflwr llochesi bws yn y Cymuned. Awgrymodd Cyng Gwenfair Rhys-Davies ddylai ystyried edrych ar cyflwr y llochesi bws sydd wedi eu lleoli o fewn Cymuned Glantwymyn. Cytunwyd mi fydd Cyng Deryck Lewis yn edrych ar y lloches yng Nghwmlline, Cyng Gwenfair Rhys-Davies y lloches yng Nghemaes, Cyng Dafydd Evans y lloches yn Llanwrin, Cyng Paul Hughes y lloches yn Glantwymyn a Chyng Huw Williams y lloches yn Ceinws.
73.2. Problemau gyda bin sbwriel ger troiad Cwm Ffrydlan. Eglurodd Cyng William Owen fod yna problemau gyda'r bin yma'n orlawn a fod pobl dieithr wedi bod yn ddefnyddio'r bin. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.
73.3. Problem gyda "manhole cover" ger Aberffrydlan. Eglurodd Cyng William Owen fod yna problem gyda "manhole cover" ger mynediad Aberffrydlan a bod trigolion yn teimlo ei fod yn beryglus. Cytunwyd codi'r sefyllfa yma gyda swyddogion Cyngor Sir Powys.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 25 Ionawr 2018.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 22 Chwefror 2018.**